

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Adroddiad Ymgynghori

Trowbridge: Ysgol Uwchradd y Dwyrain: Gwelliannau priffyrdd

Rhif y Project: CO18057

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 3 Awst a 24 Awst 2018. Daeth un ymateb i law. Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi eu crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir bwrw ymlaen â'r cynllun, fel y nodir yn y cynllun ymgynghori.

Mater 1 - Bwrdd Arafu.

Ble bynnag y caiff byrddau arafu lled llawn eu cyflwyno, rydym bob tro'n mynegi pryder o ran eu proffil a'r gwaith cadw a chynnal parhaus. Ledled y ddinas mae nifer o enghreifftiau lle mae'r proffiliau'n amrywio i'r graddau y maent yn niweidio ein cerbydau yn ogystal ag effeithio ar ansawdd y profiad teithio.

Mae gyrru'n parhaus dros y cyfyngiadau hyn yn achosi i gydrannau'r bws ddirywio'n gynt ac felly'n golygu bod rhaid prynu rhai newydd yn fwy aml ac yn cynyddu'r gost o ddarparu ein gwasanaeth. Maent hefyd yn cael effaith ddinistriol ar ansawdd y daith, a gall hyn effeithio'n negyddol ar nifer y siwrneiau y mae cwsmeriaid yn dewis mynd arnynt. Nodwn fod y pellter rhwng y ddau fwrdd arafu arfaethedig yn agos yn y cynnig.

Ymateb

Cydnabyddir bod twmpathau ffordd o wahanol raddiant ledled y ddinas a byddwn yn ceisio gwneud y graddiant ar yr holl dwmpathau newydd yn gyson. Er mwyn darparu taith gyfforddus i deithwyr bysus, bydd y twmpathau hyn yn cael eu cynllunio gyda graddiant o 1 i 14, ac yn o leiaf 6m o hyd, ac ni ddylai hyn achosi difrod i gerbydau os gyrrir drostynt ar gyflymder addas.

Yn anffodus, defnyddio byrddau arafu yw un o'r unig ddulliau sydd gennym i arafu traffig. Mae byrddau traffig yn addas i'r lleoliad hwn er mwyn creu amgylchedd priffordd mwy diogel ger Ysgol Uwchradd y Dwyrain, lle mae llawer o gerddwyr agored i niwed.

Mater 2 – Adleoli safle bws.

Mae'r safle bws presennol ar Aberdaron Road wedi'i leoli mewn man sydd â bwlch addas rhwng ei safle cynt a nesaf a chaiff ei ddefnyddio gan breswylwyr lleol yn ogystal â disgyblion Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Mae lleoliad y safle hwn a'r safle nesaf ar Trowbridge Road wedi achosi tipyn o 'anfodlonrwydd' yn sgil ymddygiad gwael disgyblion wrth aros am fws. Rydym wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r mater hwn yn sylweddol ac rydym yn poeni y bydd symud y safle yn ailagor y mater gan y bydd gerllaw eiddo sy'n newydd i hyn.


Ymateb

Nid yw'n bosibl gosod croesfan sebra newydd a chadw'r safle bws yn ei leoliad presennol ar Aberdaron Road hefyd. Ni fydd modd i fws ddod i stop ar farciau ffordd igam-ogam. Rydym wedi ystyried yr opsiwn i leihau hyd y llinellau igam-ogam ar Aberdaron Road, ond credwn y byddai hyn yn lleihau gwelededd rhwng cerbydau sy'n nesáu a cherddwyr ar y groesfan sebra, a fyddai'n peri pryderon diogelwch difrifol.

Mae lleoliad y safle bws newydd ar Trowbridge Road i'r ochr o 1 Mullins Avenue, ac nid yw'n uniongyrchol y tu allan i eiddo preswyl. Byddwn yn gofyn i'r ysgol atgoffa disgyblion am gynnal safonau ymddygiad da pan fyddant yn cerdded adref neu'n aros am fws.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnis rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy.